**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 325 (Cy. 61)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Mawrth 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Mawrth 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Mawrth 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 7(2)(b), 8(3), 9(3), 11, 16(2), 21(1) a (2), 24 a 123(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 2003 p. 26. Diwygiwyd adran 24 gan adran 238(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28). Mae'r pwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, yn rhinwedd adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 fel y'i diwygiwyd. Roedd y pwerau wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.